Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Elin Jones
Y Llywydd

20 Tachwedd 2020

Annwyl Lywydd

**Cynigion Cydsyniad Offeryn Statudol**

Yn ein cyfarfod ar 9 Tachwedd 2020, ystyriwyd ymateb gan y Prif Weinidog, dyddiedig 4 Tachwedd 2020, i'n llythyr ato, dyddiedig 23 Hydref 2020, am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran cynigion cydsyniad offeryn statudol o dan Reol Sefydlog 30A.

Mae hwn wedi bod yn fater hirsefydlog i'r Pwyllgor. Roedd ein llythyr ar 23 Hydref 2020 yn nodi llawer o'r cefndir ac yn cynnwys cyfeiriad at yr ohebiaeth a gyfnewidwyd, dyddiedig 25 Mawrth 2019 a 7 Mai 2019.

Rydym yn parhau i bryderu am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru a'i dehongliad o Reol Sefydlog 30A, o gofio effaith hon ar waith craffu gan y Senedd.

Mae ein safbwynt ar y materion hyn yn glir: nid ydym yn credu ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru, fel y weithrediaeth, ddewis pa gynigion y mae'n eu cyflwyno i'r Senedd roi ei chydsyniad i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig.

Rydym o'r farn mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cyflwyno'r cynigion cydsyniad angenrheidiol pan fydd un o Weinidogion Cymru yn gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol, i'w trafod yn amser y llywodraeth, a gall y Senedd wneud ei phenderfyniad i roi ei chydsyniad ai peidio.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei his-ddeddfwriaeth ei hun yn y meysydd hyn yna byddai'n ddarostyngedig i'r gweithdrefnau craffu perthnasol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 27, a allai gynnwys dadleuon yn y Cyfarfod Llawn i naill ai gymeradwyo neu i ddirymu offerynnau statudol. Ni all fod yn iawn, y gallai Llywodraeth Cymru, drwy ddefnyddio Rheol Sefydlog 30A, fod yn gwneud penderfyniad fel y weithrediaeth i osgoi'r Senedd fel y ddeddfwrfa rhag arfer unrhyw swyddogaeth graffu. Y *quid pro quo*

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

yw, wrth ddefnyddio Rheol Sefydlog 30A (sy'n golygu bod Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig), bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig i geisio cymeradwyaeth y Senedd i'r dull gweithredu hwn. Yn ein barn ni, ni allwn weld sut y byddai unrhyw amgylchiadau nac unrhyw reswm da pam na ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynnig. Rydym yn cydnabod y gall rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig fod yn briodol, ar adegau; ond mae cyflwyno cynnig ar gyfer ddadl yn rhan hanfodol o'r broses gydsynio ac yn darparu mai mater ar gyfer y Senedd yw'r penderfyniad terfynol. Heb gyflwyno cynnig, daw'r broses yn un o gydsyniad gweithredol yn ddiofyn, yn hytrach na chydsyniad seneddol.

Mae llythyr y Prif Weinidog yn ailadrodd y farn y caiff Aelodau o'r Senedd gyflwyno'r cynnig perthnasol. Ni ddylai'r cyfrifoldeb fod ar Aelod mainc gefn y Senedd i gyflwyno cynnig o'r fath pan mai Llywodraeth Cymru, fel y weithrediaeth, sydd wedi cychwyn y broses, a gwneud y penderfyniad ar sut i ddeddfu. Dylai penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â deddfu ei hun mewn maes datganoledig fod yn destun gwaith craffu yn amser y llywodraeth, nid ei ddyrannu yn ôl yr amser ar gyfer busnes anllywodraethol.

At hynny, rydym o'r farn bod dadleuon Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn yn ddiffygiol, o ystyried y farn a fynegwyd yn eich llythyr dyddiedig 25 Mai 2019 ynghylch bwriad Rheol Sefydlog 30A, a ailadroddwyd gennym ni yn ein llythyr at y Prif Weinidog ar 23 Hydref 2020.

Rydym hefyd yn anghytuno â'r Prif Weinidog pan ddywed yn ei lythyr:

> It has become clear there is very little appetite for detailed debate in the chamber for what are usually technical measures. Consequently, and not least because plenary time is at a premium, we propose no longer routinely to table such motions for debate.

Nid y weithrediaeth sydd i benderfynu ar yr awydd i graffu, y graddau y mae deddfwriaeth yn dechnegol nac i awgrymu nad oes gan y ddeddfwrfa'r capasiti i graffu'n safonol ar gamau gweithredu'r weithrediaeth (barn y dylanwadir arni gan ddehongliad y weithrediaeth ei hun o Reol Sefydlog 30A).

Rydym yn derbyn fod llawer o faterion pwysig i'w trafod yn y Cyfarfod Llawn ond nid ydym yn derbyn y ddadl bod dadleuon ar gynigion cydsyniad offerynnau statudol yn ddefnydd amhriodol o amser y Senedd. Maent yn disodli'r gwaith craffu ar reoliadau a fyddai fel arall yn cael eu cynnal gan y Senedd, ac mae hyd y ddadl sydd arnynt yn fater sydd i'w benderfynu gan Aelodau o'r Senedd a'r Rheolau Sefydlog.

Mae'r dull sy'n cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru yn arbennig o bryderus pan fydd is-ddeddfwriaeth o'r fath a wneir gan Weinidogion y DU yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau a gedwir yn ôl, y mae ei heffaith yn gyfystyr â chyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Er mwyn dangos ein rhwystredigaeth gyda'r dull a fabwysiadwyd, yn ein cyfarfod ar 9 Tachwedd 2020, trafodwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 6 Tachwedd 2020, a oedd yn ymwneud â Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020. Roedd y llythyr yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynnig

cydsyniad offeryn statudol ar gyfer y ddadl ar y Rheoliadau hyn, yr oeddem ni eisoes wedi'u hystyried yn ein cyfarfod ar 2 Tachwedd 2020 (byddem fel arfer yn disgwyl cael y llythyr ar yr un pryd ag y gosodir y memorandwm cydsyniad offeryn statudol gerbron y Senedd). Nododd llythyr dilynol, dyddiedig 12 Tachwedd 2020, fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â threfnu dadl, gan nodi llythyr y Prif Weinidog ar 4 Tachwedd 2020 fel rhan o'i rhesymu dros wneud hynny.

Felly gofynnwn am eglurhad pellach ar y dehongliad o Reol Sefydlog 30A ac, os oes angen, awgrymwn y dylid ei hadolygu'n ffurfiol er mwyn gwneud ei diben yn eglur.

Caiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at y Prif Weinidog, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English